**Rhif:** WG40940

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau Llacio Gofynion Trefniadau Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 15 Gorffennaf 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL (h) Hawlfraint y Goron 2020 ISBN Digidol **978-1-80038-860-4**

# Rheoliadau Llacio Gofynion Trefniadau Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau Llacio Gofynion Trefniadau Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020. |
| **Y camau y mae angen eu cymryd** | Dim |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i: IMS@gov.wales |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.llyw.cymru/ymgynghoriadau<br><br>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill. |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Gellir dod o hyd i Reoliadau Llywodraeth Cymru sy'n llywodraethu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth i ysgolion yn: https://llyw.cymru/rheoliadau-syn-llywodraethur-strategaeth-rheoli-gwybodaeth |

# Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Rheoliadau Llacio Gofynion Trefniadau Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Bydd y Rheoliadau hyn yn addasu neu'n datgymhwyso nifer o'r gofynion adrodd cyfredol mewn ysgolion. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac yn cadarnhau'r canlyniad.

# Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd 50 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i fynegi eu barn. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad 1.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (47) o blaid y newidiadau a gynigiwyd ac yn teimlo bod hyn yn ymateb angenrheidiol, 'synhwyrol a theg' i'r heriau a wynebir gan ysgolion. Y rhesymau a roddwyd dros gefnogi'r newid oedd y byddai'n lleihau'r baich gweinyddol ar ysgolion ac yn dileu'r gofynion a fyddai'n amhriodol, o ystyried yr amgylchiadau. Ni ddangosodd tri ymatebydd gefnogaeth nac fel arall i'r cynigion yn gyffredinol, ond gwnaethant gynnig sylwadau neu godi pryderon am agwedd benodol ar y cynigion.

Teimlai'r ymatebwyr y dylid rhoi amser i ysgolion gynllunio ar gyfer 'normal newydd' ac y byddai llacio'r gofynion adrodd yn lleihau rhywfaint o'r baich ar ysgolion i'w helpu i wneud hyn. Roeddent hefyd o'r farn y byddai'r newidiadau yn rhoi'r cyfle i ysgolion ganolbwyntio eu sylw llawn ar roi'r profiad gorau posibl i ddisgyblion a'u bod yn gamau hanfodol i gydnabod llesiant dysgwyr ac ymarferwyr ar hyn o bryd.

**Sylwadau penodol ac ymatebion Llywodraeth Cymru**

***Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011***

Teimlai un ymatebydd y dylai adroddiadau cyrff llywodraethu ganolbwyntio ar sut mae ysgolion wedi ymdopi â heriau'r coronafeirws ac wedi ateb yr heriau hynny. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid annog ysgolion i ddangos sut mae eu hymateb i'r coronafeirws yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn unol â'r Rheoliadau, dylai adroddiadau cyrff llywodraethu egluro sut mae'r corff llywodraethu wedi rhoi ei gynlluniau ar gyfer yr ysgol ar waith ers yr adroddiad diwethaf, yn ogystal ag unrhyw gamau a gymerwyd i adolygu polisïau'r ysgol a rhoi strategaethau ysgol benodol ar waith a'u hadolygu. O ystyried yr amgylchiadau eithriadol eleni, byddai'n rhesymol i'r adroddiadau ddisgrifio effaith y coronafeirws ar waith cynllunio'r ysgol a sut mae'r corff llywodraethu wedi gweithio gyda thîm arwain yr ysgol i addasu i'r her hon, ond nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol penodol.

***Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011***

Er eu bod yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r Rheoliadau hyn, gofynnodd pedwar ymatebydd am ragor o eglurder ynghylch y term 'ymdrechion rhesymol', gan awgrymu y gallai fod angen canllawiau pellach yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer penaethiaid. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid datgymhwyso'r holl ofynion eraill mewn perthynas ag adroddiadau penaethiaid ar gyfer 2019/20, ac eithrio'r adroddiad i ddisgyblion sy’n ymadael â’r ysgol. Hysbysodd swyddogion Llywodraeth Cymru ysgolion am y cynigion ym mis Mai, drwy ohebiaeth i awdurdodau lleol yn rhoi rhagrybudd o'r dull gweithredu arfaethedig, gan egluro y byddai penaethiaid (ac athrawon) yn cael yr hyblygrwydd ychwanegol y gallai fod ei angen arnynt o ran fformat, cynnwys ac amseru adroddiadau. Dywedwyd wrth ysgolion, er bod y

cynigion yn dileu'r holl amodau, y disgwylir y bydd rhywfaint o wybodaeth ar gael i'w chynnwys mewn adroddiadau, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr unigol; unrhyw gryfderau penodol a meysydd i'w datblygu; trosolwg o'u hymddygiad, eu llesiant cyffredinol a'u brwdfrydedd i ddysgu, eu cyfraniad at fywyd yr ysgol neu unrhyw gyflawniadau arbennig. Gall rhai adroddiadau fod yn seiliedig ar gynnydd y dysgwr hyd at yr adeg pan gaewyd yr ysgol, ond mewn achosion eraill, gall fod yn bosibl cynnwys cynnydd yn ystod y cyfnod tra bu'r ysgol ar gau.  Fodd bynnag, awgrymiadau ynghylch yr hyn a allai fod yn rhesymol oedd y rhain, yn hytrach na gofynion rhagnodedig.

Roedd yr holl ymatebwyr a wnaeth sylwadau penodol ar ddisgyblion sy'n ymadael â'r ysgol yn cytuno y dylai hyn barhau'n ofyniad statudol. Holodd tri ymatebydd am y diffiniad o ddisgybl sy'n ymadael â'r ysgol. Mae'r Rheoliadau'n pennu mai ystyr disgybl o'r fath yw unrhyw ddisgybl nad yw o oedran addysg orfodol mwyach ac sy'n bwriadu ymadael â'r ysgol neu sydd eisoes wedi gwneud hynny. Holodd y tri ymatebydd hefyd am y goblygiadau i benaethiaid os na ellid darparu adroddiad i ddisgyblion sy'n ymadael â'r ysgol er gwaethaf 'ymdrechion rhesymol'. Gan y bydd darparu adroddiad yn parhau i fod yn ddyletswydd absoliwt ac nid yn amodol ar 'ymdrechion rhesymol', byddai hyn yn gyfystyr â thorri'r gofyniad rhesymol. Fodd bynnag, bydd y gofynion o ran amseru, cynnwys a llofnod yn amodol ar 'ymdrechion rhesymol', felly cred Llywodraeth Cymru y dylai fod yn bosibl darparu adroddiadau, hyd yn oed os bydd hynny'n hwyrach na'r dyddiad cau arferol, sef 30 Medi, ar ôl diwedd y flwyddyn ysgol y gadawodd y disgybl yr ysgol, p'un a fu hynny yn ystod y flwyddyn neu ar ei diwedd.

### *Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011*

Mynegodd un ymatebydd bryder na fydd unrhyw ddull cyson i ddeall perfformiad ysgol ac na fyddai rhieni na gofalwyr yn cael gwybodaeth gyson. Argymhellodd tri ymatebydd y dylai ysgolion, yn absenoldeb canlyniadau asesiadau athrawon, fod yn cymryd camau i ddeall cynnydd disgyblion a llywio gwaith cynllunio ar gyfer ymyriadau a chymorth priodol, ac y dylai awdurdodau lleol allu cael gafael ar gynlluniau o'r fath.  Nid yw'r cynlluniau hyn yn atal hyn, ond nid yw'n ofyniad cyfreithiol penodol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r canllawiau gwella ysgolion er mwyn adeiladu ar y trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd drafft a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror 2019, gan ystyried hefyd y cyd-destun newydd y mae'r system addysg gyfan yn ei wynebu. Bydd gwaith hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau effeithiol gan ysgolion yn rhan bwysig o'r system. Caiff ysgolion eu cefnogi yn hyn o beth gan yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol, y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei ddatblygu ochr yn ochr ag Estyn a nifer o ysgolion ledled Cymru.

### *Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011*

Mynegodd un ymatebydd bryder ynghylch diddymu'r gofyniad i osod targedau perfformiad ac absenoldeb yn sgil pwysigrwydd monitro absenoldeb i fodloni gofynion diogelu. Hoffai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd nad yw'r cynnig hwn yn newid gofynion diogelu na monitro amser real. Nid y broses flynyddol o adolygu targedau absenoldeb ar lefel yr ysgol, ac adrodd arnynt, yw'r ffordd o nodi pryderon ynghylch diogelu wrth iddynt godi. Cydnabu'r ymatebydd yn gywir ddigon y bydd ysgolion yn parhau i gofnodi a monitro presenoldeb ac absenoldeb. Teimlai un ymatebydd fod angen rhyw fath o dargedau ar ysgolion i ddisgyblion ac athrawon eu cyflawni a rhagwelodd ymatebydd arall y bydd ysgolion yn dal i ddefnyddio targedau ar gyfer dysgwyr unigol, yn fewnol, er mwyn nodi unrhyw ymyriadau sydd eu hangen. Awgrymodd ymatebydd arall y gall fod angen canllawiau ychwanegol ar ysgolion yn absenoldeb gofynion o ran gosod targedau. Nodir uchod adolygiad Llywodraeth

Cymru o'r canllawiau gwella ysgolion a'i gwaith i ddatblygu'r trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ymhellach.

***Cyffredinol***

Nododd un ymatebydd fod amseru'r ymgynghoriad braidd yn hwyr yn y flwyddyn ysgol. Roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai hynny'n anochel a chyhoeddodd ragrybudd o'r newidiadau arfaethedig i randdeiliaid allweddol ym mis Mai, er mwyn rhoi eglurder a chynorthwyo'r broses gynllunio.

Awgrymodd dau ymatebydd y byddai'r Rheoliadau'n destun adolygiad rheolaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd y tarfu parhaus ar addysg yn arwain at oblygiadau y flwyddyn nesaf ac mae'r Gweinidog Addysg eisoes wedi cyhoeddi y bydd mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 (a'r chweched dosbarth blaenorol) yn parhau i gael eu hatal ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Felly, caiff gofynion adrodd mewn ysgolion eu hadolygu eto yn ystod 2020/21.

Holodd un ymatebydd am oblygiadau'r cynigion ar gyfer y system categoreiddio ysgolion. Ar 6 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai'r system categoreiddio ysgolion yn cael ei hatal ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21.

Mynegodd un ymatebydd bryderon am beidio â chyhoeddi data ar Gyfnod Allweddol 4 oherwydd yr angen i sicrhau y deellir canlyniadau dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd. Gofynnodd ymatebydd arall beth fyddai Llywodraeth Cymru yn ei gyhoeddi yn seiliedig ar gymwysterau Cyfnod Allweddol 4 a chweched dosbarth. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ddatganiad ysgrifenedig ar 3 Gorffennaf 2020 yn cadarnhau mai dim ond ar lefel genedlaethol y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Ystadegau Swyddogol. Bydd yr ystadegau hyn yn archwilio canlyniadau yn ôl amrywiaeth o nodweddion dysgwyr.

Gwnaeth tri ymatebydd sylwadau ehangach yn ymwneud â'r ymateb i'r coronafeirws ac agweddau eraill ar bolisi addysg Llywodraeth Cymru, a oedd y tu hwnt i gwmpas y Rheoliadau hyn. Er na roddwyd ymatebion, mae'r sylwadau hyn wedi'u nodi.

Achubodd rhai llywodraethwyr ysgolion hefyd ar y cyfle i ddiolch i staff ysgolion ac awdurdodau lleol am eu gwaith yn ystod y cyfnod heriol hwn.

***Casgliad***

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus. Mae mwyafrif clir yn cefnogi'r cynigion a chred Llywodraeth Cymru y byddai'r materion a godwyd yn cael eu lliniaru heb newid y cynigion hyn. Nid yw rhai o'r materion a godwyd yn deillio'n uniongyrchol o'r cynigion ac ni fyddent yn cael eu lliniaru drwy adael y gofynion statudol heb eu newid. Felly, caiff y Rheoliadau eu llunio a'u cyflwyno gerbron Senedd Cymru ar 15 Gorffennaf 2020.

## Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

- Pedwar unigolyn
- 12 o ysgolion cynradd
- Dwy ysgol uwchradd
- 17 o lywodraethwyr neu gyrff llywodraethu (tair ysgol uwchradd a 14 o ysgolion cynradd)
- Chwe awdurdod lleol
- Un consortiwm rhanbarthol
- Tri undeb athrawon ac un undeb llafur cyffredinol
- Estyn
- Gwasanaethau Governors Cymru
- NSPCC Cymru
- Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar